# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 13
22/06/20

# Y Tad Cariadus

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

**Paid â phoeni os na wnei di bopeth.**
**Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansio a chael hwyl!**




**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Cass Meurig, Kathryn Williams, Anna Krabbenhöft, Rachel Hughes & Gwyn Rhydderch


An English version is also available


Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

## Fersiwn Beibl.net

Aeth Iesu yn ei flaen i ddweud stori arall: “Roedd rhyw ddyn a dau fab ganddo. Dyma'r mab ifancaf yn mynd at ei dad a dweud, ‘Dad, dw i eisiau i ti roi fy siâr i o'r ystâd i mi nawr.’ Felly dyma'r tad yn cytuno i rannu popeth oedd ganddo rhwng y ddau fab.



“Yn fuan wedyn, dyma'r mab ifancaf yn gwerthu'r cwbl lot, gadael cartref a theithio i wlad bell. Yno gwastraffodd ei arian i gyd ar fywyd gwyllt. Ar ôl iddo golli'r cwbl bu newyn difrifol drwy'r wlad, ac roedd yn dechrau llwgu. Llwyddodd i berswadio rhywun i roi gwaith iddo, a chafodd ei anfon allan i'r caeau i ofalu am foch. Aeth pethau mor ddrwg nes ei fod yn cael ei demtio i fwyta peth o'r bwyd moch! Doedd neb yn rhoi dim arall iddo.

“Yna o'r diwedd, calliodd, ac meddai ‘Beth dw i'n ei wneud yn y fan yma yn llwgu i farwolaeth? Mae dad yn cyflogi gweithwyr, ac mae ganddyn nhw ddigonedd o fwyd. Af i adre at dad, a dweud wrtho: Dad, dw i wedi pechu yn erbyn Duw ac yn dy erbyn di. Dw i ddim yn haeddu cael fy ngalw'n fab i ti ddim mwy. Gad i mi fod yn un o'r gweithwyr sy'n cael eu cyflogi gen ti.’ Felly i ffwrdd ag e yn ôl adre.



“Gwelodd ei dad e'n dod pan oedd yn dal yn bell i ffwrdd. Roedd ei dad wedi cynhyrfu, a rhedodd at ei fab, a'i gofleidio a'i gusanu.

“A dyma'r mab yn dweud wrtho, ‘Dad, dw i wedi pechu yn erbyn Duw ac yn dy erbyn di. Dw i ddim yn haeddu cael fy ngalw'n fab i ti ddim mwy.’ Meddai'r tad wrth y gweision, ‘Brysiwch! Ewch i nôl mantell iddo ei gwisgo – yr un orau! Rhowch fodrwy ar ei fys a sandalau ar ei draed. Yna ewch i ladd y llo sydd wedi cael ei besgi, i ni gael parti! Roedd fy mab i wedi marw, ond mae wedi dod yn ôl yn fyw; roedd e ar goll, ond dŷn ni wedi'i gael yn ôl.’ Felly dyma'r parti'n dechrau.

“Tra oedd hyn i gyd yn digwydd roedd y mab hynaf allan yn gweithio yn y caeau. Wrth ddod yn ôl at y tŷ roedd yn clywed sŵn cerddoriaeth a dawnsio. Galwodd fachgen ifanc ato, a gofyn iddo beth oedd yn digwydd. ‘Mae dy frawd yma!’ meddai hwnnw, ‘Mae dy dad wedi lladd y llo oedd wedi'i besgi i ddathlu ei fod wedi'i gael yn ôl yn saff.’

“Ond dyma'r mab hynaf yn digio, a gwrthod mynd i mewn. Felly dyma'i dad yn dod allan a chrefu arno i fynd i mewn. Ond meddai wrth ei dad, ‘Edrych! Dw i wedi slafio ar hyd y blynyddoedd yma, heb erioed wrthod gwneud unrhyw beth i ti. Ches i erioed fyn gafr gen ti i gael parti gyda fy ffrindiau! Ond dyma hwn yn dod adre – y mab yma sydd gen ti – yr un sydd wedi gwastraffu dy arian di i gyd ar buteiniaid. O! mae'n rhaid i ti ladd y llo sydd wedi'i besgi i hwn!’

“‘Machgen i,’ meddai'r tad wrtho, ‘rwyt ti yma bob amser, a ti sydd biau popeth sydd gen i ar ôl. Ond roedd rhaid i ni ddathlu – roedd dy frawd wedi marw, ond mae wedi dod yn ôl yn fyw; roedd e ar goll, ond dŷn ni wedi'i gael yn ôl!’”

*Luc 15:11-32 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Dwedodd Iesu stori unwaith. Roedd yna dad ac roedd ganddo dau fab. Un diwrnod daeth y brawd ifancaf ato fo a gofyn am lawer o arian felly rhoddodd y tad arian iddo fo. Aeth y brawd ifancaf i ffwrdd a gwario'r cwbl lot ar bethau gwirion! Pan doedd ganddo ddim ar ôl, dechreuodd lwgu a phenderfynodd fynd yn ôl a dweud sori wrth ei dad. Gwelodd ei dad o'n dod o bell. Roedd o mor hapus a rhedodd at ei fab a'i gusanu. 'Hwre!' meddai wrth bawb. 'Mae fy mab wedi dod yn ôl!' A dyma'r parti'n dechrau!

# Cwestiynau i’w Trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Wyt ti wedi bod ar goll rywdro? Wyt ti’n cofio beth ddigwyddodd? Sut wnest ti gyrraedd adre’n ddiogel?
2. Sut wyt ti’n meddwl oedd y tad yn teimlo pan aeth ei fab i ffwrdd?
3. Sut wyt ti’n meddwl oedd y mab yn teimlo wrth deithio tuag adre’?
4. Sut fath o berson wyt ti’n meddwl ydy’r tad yn y stori?



# Stori i'w lliwio

## Y Mab oedd Ar Goll yn Dod Adre

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Dywedodd Iesu stori sy'n cael ei galw yn "Y Mab Afradlon" er mwyn dangos gymaint mae Duw yn ein caru ni.



Roedd gan ffermwr ddau fab. Roedden nhw'n byw ac yn gweithio ar fferm eu tad. Un diwrnod, pan fyddai eu tad yn marw, y ddau fab fyddai'n rhannu'r arian oedd ganddo.



Un diwrnod dywedodd y mab ieuengaf wrth ei dad, "Dad, rho hanner dy arian i mi. Efallai y byddi di ddim yn marw am amser hir. Rydw i eisiau amser da nawr."



Rhoddodd y tad hanner ei arian i'r mab. Roedd o'n hynod o drist pan aeth ei fab i ffwrdd. Gweddïodd y tad y byddai'r mab yn dod yn ôl adref rhyw ddydd.



Cafodd y mab hwyl a gwariodd ei arian. Cynhaliodd bartïon mawr a rhoddodd anrhegion i'w ffrindiau. Yn fuan iawn roedd ei holl arian wedi diflannu. Doedd ganddo ddim tŷ hyd yn oed, i fyw ynddo.



Bu'n rhaid iddo fynd i weithio ac aeth i ofalu am foch. Roedd yn waith budr a drewllyd. Roedd arno gymaint o eisiau bwyd nes ei fod o'n barod i fwyta bwyd y moch. Meddyliodd y mab am ei dad a theimlodd yn ddigalon iawn.




"Rydw i am fynd adref ac mi weithiaf fel gwas i fy nhad. Mae dad yn bwydo'i weision mor dda." Roedd y tad wastad yn edrych allan am ei fab yn dod adref a phan welodd ei fachgen rhedodd i'w gyfarfod.



"Rydw i wrth fy modd oherwydd mae fy mab wedi dod adref! Fe gawn ni barti," meddai'r tad yn llawen. Roedd Iesu'n ein hatgoffa yn y stori hon fod Duw wastad yn disgwyl i ni ddod yn ôl ato.

# Lliwio

© Patmos Editorial Company



Gwelodd ei dad e'n dod pan oedd yn dal yn bell i ffwrdd. Roedd ei dad wedi cynhyrfu, a rhedodd at ei fab, a'i gofleidio a'i gusanu.

Luc 15 adnod 20





# Gweddi fer

O Dduw, diolch i Ti am dy fod yn fy ngharu i fel y Tad yn y stori.
Diolch i Ti dy fod yn fy ngharu i, hyd yn oed pan na fydda i'n meddwl amdanat Ti.
Mae'n ddrwg gen i am y troeon pan ydw i wedi bod yn debyg i'r mab yn y stori, eisiau fy ffordd fy hun.
Diolch i Ti dy fod eisiau'r gorau i mi bob amser. Amen.


# Posau

Mae 5 gwahaniaeth rhwng y 2 lun hyn. Fedru di ddod o hyd iddyn nhw?











Fedru di helpu'r mab i adael y moch a dod o hyd i'r ffordd yn ôl at ei dad?

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I | S | I | E | R | S | L | Ô | U | G | I | R |
| T | R | O | E | DD | M | A | G | O | LL | O | B |
| D | U | D | W | A | R | B | E | N | E | N | D |
| N | I | N | G | TH | E | I | D | DD | I | D | N |
| Y | G | O | DD | L | Ô | I | I | LL | R | W | I |
| A | C | F | I | U | D | Y | FF | D | D | H | Ŷ |
| TH | Ŷ | M | A | E | CH | S | N | DD | E | O | R |
| L | T | PH | W | L | I | D | E | W | NG | W | D |
| U | Ô | L | U | E | W | B | Y | M | A | R | W |
| Ŷ | CH | D | I | A | RH | F | Ô | N | C | LL | A |
| F | N | Ô | N | G | O | DD | Ŷ | FF | Y | W | R |
| O | Y | P | TH | M | I | D | E | Y | N | A | F |

Mae'r geiriau'r adnod isod yn cuddio yn y chwilair. Fedri di ddod o hyd iddyn nhw i gyd?

OND ROEDD RHAID I NI DDATHLU – ROEDD DY FRAWD WEDI MARW, OND MAE WEDI DOD YN ÔL YN FYW; ROEDD E AR GOLL, OND DŶN NI WEDI'I GAEL YN ÔL!


# Dolenni






Sgetsh bypedau https://youtu.be/GfSeBZvXtlw

Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/Ia231zPZyL8




Fideo o'r stori https://youtu.be/o-QrxWF21qk




Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=DJgROx4wFKM

Cartŵn arall o'r stori https://www.youtube.com/watch?v=DvPsesn-yLA

Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim https://arwyrancora.com/

Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau https://ww w.youtube.com/channel/UCzhjwum9-XieYxdQY-r1OJw *(cliciwch 'Subscribe')*

Adnoddau eraill https://www.prayerspacesinschools.com/prayer-spaces-at-home

# Gweddi Greadigol

## Duw y Tad

**Byddi angen:**

- Hanner tudalen o gerdyn lliw A4 wedi'i dorri ar ei hyd
- 1 cerdyn gwyn A4
- 2 Lygaid lloerig (googly eyes)
- Pinnau ffelt
- Glud
- Siswrn



**Beth i'w wneud:**

- Plyga'r cerdyn lliw yn 3 rhan.
- Ar y cerdyn gwyn gwna lun o ddwy law a phen.
- Gluda'r llygaid lloerig ar yr wyneb.
- Gwna lun o wallt, trwyn a cheg ar yr wyneb.
- Gluda'r pen ar y cerdyn lliw yn y rhan ganol.
- Ar weddill y cerdyn gwyn ysgrifenna'r adnod a'i gludo ar fol y dyn.

**Gweddi**

Meddylia am y ffaith ein bod ni'n galw Duw yn Dad. Treulia ychydig eiliadau yn diolch iddo ei fod yn dy garu di a'i fod gyda thi nawr a phob amser.

**Meddyliwch mor aruthrol fawr ydy'r cariad mae'r Tad wedi'i ddangos aton ni! Dŷn ni'n cael ein galw'n blant Duw! Ac mae'n berffaith wir!** *1 Ioan 3 adnod 1*

## Creu'r gair sori

Mae pob un ohonon ni'n gwneud, yn dweud a meddwl pethau weithiau sy'n anghywir. Mae dweud sori yn ffordd o gyfaddef dy fod yn anghywir, a dy fod eisiau gwneud pethau'n iawn.

Mae Cristnogion yn credu, pan fyddwn ni'n dweud sori wrth Dduw, bod Duw yn golchi'r pethau anghywir i gyd i ffwrdd. Maddeuant ydy'r gair am hyn.

Oes yna rywbeth sydd angen i ti ddweud sori amdano fo? Ysgrifenna'r gair sori yn y tywod neu ffurfio'r gair gyda ffyn neu gerrig. Pan fyddi di'n barod, newidia'r gair i ffurfio calon er mwyn atgoffa dy hun am y ffaith fod Duw yn dy garu di.







## 'Zipiau' Cymodi


Pan mae pobl yn dadlau a ffraeo, maen nhw ar wahân i'w gilydd. Tydyn nhw ddim yn agos at ei gilydd wedyn. Wyt ti wedi dadlau hefo rhywun yn ddiweddar? Wyt ti'n nabod pobl sydd ddim yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd? Mae 'zip' yn glyfar. Mae 'zip' yn dod â dwy ochr at ei gilydd. Cymodi ydy dod â dwy ochr at ei gilydd.

Coda 'zip' a meddylia am bobl rwyt ti eisiau iddyn nhw gymodu â'i gilydd. Os wyt ti eisiau, dyweda weddi dawel dros y bobl rwyt ti'n meddwl amdanyn nhw wrth i ti gau'r 'zip'. Gweddi o gymod ydy hon.




# Sialensau

## Cerdyn cwtsh



Beth am anfon cwtsh drwy'r post i rhywun?

- Gwna amlinelliad o dy ddwy law ar bapur a'u haddurno.
- Cymer stribed hir o bapur a'i blygu fel consertina.
- Ysgrifenna neges ar y stribed papur.
- Gluda'r dwylo un bob pen i'r stribed papur.




## Gwisgo'i fyny ac actio'r stori

Darllena'r stori ac yna gwisga'i fyny fel un o'r cymeriadau.
Dyma rai syniadau i ti am ddillad e.e. lliain sychu llestri ar dy ben, 'dressing gown' amdanat.
Nawr actia rannau o'r stori. Gelli gymryd tro i actio'r gwahanol gymeriadau.

Beth am geisio gwneud model o'r stori gan ddefnyddio Lego?



# Crefft



## Mochyn Potyn

Byddi angen:
Potel Bop 2 litr wag,
Paent pinc
(neu goch a gwyn wedi'u cymysgu),
Cerdyn pinc
(neu un gwyn wed'i liwio'n binc),
Llygaid lloerig (googly eyes),
Glud,
Siswrn, Pinnau ffelt,
Brwsh paent





1.Tynna'r caead oddi ar y botel. Gwasga hi ac yna gwna doriad bach yn y plastig gyda'r siswrn.



2. Rho'r siswrn yn y toriad a thorra o gwmpas y botel.




3.Torra'r botel i'r maint rwyt ti'n dymuno i dy botyn fod. Gwna'n siŵr fod yr ymylon yn llyfn.




4. Cymysga'r paent coch a gwyn i wneud paent pinc.



5. Peintia'r potyn ac yna'i adael i sychu.



6.Ar y cerdyn pinc (neu wedi'i liwio'n binc) gwna lun o ddwy glust, trwyn a chylch.



7. Torra'r clustiau, y trwyn a'r cylch allan.



8. I wneud cynffon, torra'r cylch yn sbiral.




9. Gluda'r trwyn, y clustiau, y llygaid a'r gynffon ar y mochyn.



Beth am i ti wneud mwy nag un mochyn potyn? Beth am i ti wneud teulu ohonyn nhw?

# Rysáit



## Mochyn bach melys

**Bydd angen:**

- 'Marshmallows' mawr pinc
- Eisin ffondant pinc – neu eisin gwyn wedi'i gymysgu â lliw bwyd coch
- Tiwb o 'jel' addurno du
- Potyn o mousse siocled
- Ychydig o jam



**Beth i'w wneud:**

- Rho lwyaid o'r mousse siocled ar blât.
- Rholia ychydig o'r eisin ffondant i wneud siâp trwyn i'r mochyn.
- Defnyddia ychydig o'r jam i'w ludo'r trwyn ar y 'marshmallow' mawr pinc.
- Siapia dwy glust fach a chynffon a'u gludo gyda'r jam i'r 'marshmallow'.
- Defnyddia'r 'jel' addurno du i roi dau lygaid a ffroenau i'r mochyn.
- Gosoda'r mochyn 'marshmallow' ar y mousse siocled.
- Beth am dynnu ei lun?   ... ac yna ei fwynhau!

# Canu

Os dwi'n hedfan uwch ben
syth i fyny i'r nen;
os dwi'n nofio o dan y môr; (splish splosh)
os dwi'n gwylio ar y sgrîn neu tynnu llun;
os dwi'n colli fy ngheit ar y tô; (o na!)
os dwi'n sgorio tair yn ein gêm bach ni
neu'n ennill cwpan y byd; (hwre)
bob munud, bob awr o bob dydd,
mae fy Nuw gyda fi. O, IE!
Bob munud, bob awr o bob dydd,
mae fy Nuw gyda fi.

Os dwi'n canu o flaen
Mam, Dad a Nain
neu ar ben fy hun yn y bath; LA, LA!
os dwi'n mynd i'r sŵ i weld cangarŵ
neu bwydo Goliath y gath;
os dwi'n dod i lawr y llithren fawr
neu mynd i fyny grisiau i'r gwely;
bob munud, bob awr o bob dydd
mae fy Nuw gyda fi. O, IE!
Bob munud, bob awr o bob dydd,
mae fy Nuw gyda fi.

Fedra i siarad gydag Ef
a chlywed ei lais yn glir.
Mae o'n addo dweud
i'r chwith neu'r dde.
Mae O'n fy ngharu mae'n wir!



*Hawlfraint 2005 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/Ia231zPZy

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) ar gyfer y gân hon,
cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org



# Gemau

## Y Cwrs Rhwystrau

Dewch i ni feddwl am y daith wnaeth y Mab er mwyn dychwelyd at ei Dad.

**Byddwch angen:**


- Mwgwd
- Gwrthrychau i'w defnyddio fel rhwystrau e.e. cadair, stôl, clustogau, bwrdd

**Sut i Chwarae:**

- Crea gwrs rhwystrau mewn ystafell yn y tŷ neu yn yr ardd. Defnyddia eitemau y gelli fynd oddi tanynt, drostyn nhw neu o'u cwmpas. Un pen i'r cwrs rhwystrau ydy'r fferm foch a'r pen arall ydy cartref y mab, tŷ ei dad.
- Penderfyna pa ffordd yr wyt ti'n mynd i'w chymryd. Beth fyddi di'n mynd drosto, oddi tano neu o'i gwmpas?
- Gwna'n siwr fod pawb yn deall.
- Mae angen i bawb gymryd eu tro yn dilyn y cwrs.
- Amsera pob unigolyn sy'n dilyn y cwrs rhwystrau.
- Ceisia guro dy amser blaenorol y tro nesaf ti'n dilyn y cwrs rhwystrau.



## Drysfa Lego



**Byddi angen:**

- Lego
- Marblen
- Cymeriadau Lego i gynrychioli'r moch yn un pen a'r tad yn y pen arall i'r ddrysfa

**Sut i chwarae:**

- Meddylia am y daith wnaeth y mab er mwyn cyrraedd yn ôl at ei dad.
- Gwna ddrysfa gyda'r Lego.
- Rolia'r farblen o'r fferm foch hyd at y tad.
- Amsera dy hun i weld pa mor gyflym fedri di wneud hyn.

# Gemau

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **ADREF** | | Y Tad yn dathlu am fod ei fab wedi dod adre'n ddiogel **SYMUD YMLAEN 1** | Dy frawd yn flin **YN ÔL 1** | |





Dy Dad yn rhoi croeso i ti a dathlu **SYMUD YMLAEN 1**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gadael am adre i weithio fel gwas **YN ÔL 1** | | Gofyn i dy Dad faddau i ti **ROLIO ETO** | |
| | | | | |




| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llwgu o eisiau bwyd ac eisiau mynd adre' **METHU TRO** | | Cael gwaith yn bwydo moch **YN ÔL 2** | | |



Newyn drwg - dim i'w fwyta **YN ÔL 1**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gwario dy arian i gyd **METHU TRO** | |
| Gwario dy arian ar fyw'n wyllt **YN ÔL 2** | | | |



| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gadael cartref gyda dy siâr **ROLIO ETO** | |





| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **DECHRAU** | | Gofyn am dy siâr gan dy Dad **METHU** | | Cael dy siâr gan dy Dad **SYMUD YMLAEN 2** |

**Bydd angen:**

1. Cownter neu fotwm i bob chwaraewr
2. Dîs

**Sut i chwarae:**

- Mae pob chwaraewr yn taflu'r dîs yn ei dro a symud ei gownter.
- Os mae'n glanio ar sgwâr hefo gorchymyn, rhaid gwneud beth mae'n ddweud!
- Y cyntaf i gyrraedd adre sy'n ennill.